# Beirniadaeth Cwpled  (344)

## Rhian Mair

Ar hyn o bryd mae na deimlad yn y gwynt bod dadeni yn niddordeb y beirdd ifainc yn y canu caeth. Hyfryd, felly, oedd gweld tair cwpled cynganeddol yn cyrraedd yn yr oedran hwn.

Efo cymaint o ddelweddau a disgrifiadau eiconig o'r "dirion dir" bellach wedi hen wreiddio yn yr iaith, roedd llunio cwpled newydd efo'r gair Môn, neu ateb llinell barod, yn dipyn o her.

Hoffais ymdrech *Blawd Hwdini*, yn fawr iawn.  Mae'n "fythol sâl … am drai y Fenai, am Fôn" – teimlad y gall pob Monwysyn hiraethus oddi cartref uniaethu ag o.

Yn yr un modd, hoffais naws hiraethus cwpled *Cariad*. Mae, er hyn, angen ychydig o fireinio ar gywirdeb y llinell ateb yma.

Fodd bynnag, cefais fy swyno'n llwyr gan uniongyrchedd llinell ateb *Dim Clem*:

Mae o hyd yn naear Môn

Allwedd i ddrws Afallon.

Llifa'r llinell yn hollol naturiol heb i'r bardd gael ei lyffetheirio gan y gynghanedd ond yn hytrach cyfoethogir y llinell gan ei sain. Mae'n canu, ac mae yma fardd sy'n cysylltu'r presennol efo hen hen chwedloniaeth sy'n ddwfn yn ein hisymwybod. Ym mhridd Môn, y "baradwys hen" chwedl Goronwy Owen,  mae'r allwedd i nirfana'r genedl.

Mawr ddiolch am ein hatgoffa.

Felly,

Cyntaf: Dim Clem

Ail: Blawd Hwdini

3ydd: Cariad.